



**Cofnodion Cyfarfod Awdurdod S4C
8 Mehefin 2017, S4C, Llanisien, Caerdydd**

Cyfarfod Rhif 408

| | | |
|-----------------------|--|--|
| Presennol: | Huw Jones John Davies Siân Lewis Elan Closs Stephens Hugh Hesketh Evans | (Cadeirydd yr Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) |
| Staff S4C: | Ian Jones Gwyn Williams Phil Williams Bethan C. Williams Sharon Winogorski | (Prif Weithredwr) (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) (Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Cynorthwy-ydd Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Prif Swyddog Cyllid) – 7 |
| Ymddiheuriadau | Guto Harri Amanda Rees Elin Morris | (Aelod o'r Awdurdod) (Cyfarwyddwr Creadigol Cynnwys) (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) |

MATERION SEFYDLOG:

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1.1 Gofynnwyd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. **Cofnodion cyfarfod 407, a gynhaliwyd 11eg Mai, a Materion yn Codi**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 407 (a gynhaliwyd ar 11.05.17)

Nodwyd y materion canlynol.

Trafodwyd arddull cofnodi'r trafodaethau sy'n ymwneud â rhaglenni a nodwyd fod y drafodaeth yn ddull pwysig o gofnodi barn yr Awdurdod am berfformiad y gwasanaeth. Dros gyfnod o flwyddyn, roedd hyn yn creu darlun cynhwysfawr o farn yr Awdurdod y gellid ei ddefnyddio fel man cychwyn llunio naratif yr Adroddiad Blynyddol.

Penderfynwyd y dylid parhau i ddarparu cofnod llawn o'r drafodaeth am y gwasanaeth.

Eitem 6.1.10 – nodwyd y dylai'r cofnod gyfeirio at 'rhaglen Tudur Owen' yn hytrach na 'rhaglen Tudur Owen o Lamberd'.

Eitem 8.1.3 – nodwyd fod angen esbonio fod y 'gostyngiad yn y gwylio' i iPlayer o ganlyniad i newidiadau i ddull y BBC o gyfri sesiynau gwylio.

Eitem 12 – dylid nodi dyddiadau cyfarfodydd y ddau Bwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth a gynhaliwyd ar 11 a 25 Mai.

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod fis Mai gan ymgorffori'r newidiadau uchod.

3.

Materion yn codi o'r cofnodion

Eitem 2.3.2 – Aelodaeth yr Awdurdod

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y broses arfaethedig ar gyfer penodi aelodau newydd i'r Awdurdod a nodwyd ei fod ef a PW yn pwysleisio'n gyson i DCMS bwysigrwydd cychwyn y broses o geisio aelodau newydd. Roedd cyd-destun ehangach dyddiadau tymhorau aelodau yn 2018 hefyd yn bwysig, ac os na fydd proses ar gyfer canfod aelodau newydd yn cychwyn yn fuan roedd risg y gallai'r Awdurdod golli rhagor o aelodau a rhan bwysig o gof corfforaethol y sefydliad.

Bydd PW yn cyfarfod swyddogion DCMS yfory ac roedd y Cadeirydd yn bwriadu cysylltu gyda Claire Pillman er mwyn pwysleisio pwysigrwydd y broses i S4C.**Ofcom**

[Crynodeb: Cyfeiriwyd at sylwadau diweddar am berthynas S4C ac Ofcom a nodwyd fod gwasanaethau S4C yn cael eu rheoleiddio gan Ofcom, gydag angen i gydymffurfio gyda Chod Darlledu Ofcom, fod modd cwyno i Ofcom am raglenni S4C, fod gan Ofcom bwerau dros S4C yn cynnwys y gallu i ddirwyo S4C].

Cyfarfod y Cadeirydd gyda Chadeirydd y BBC

Bu'n rhaid ail-drefnu'r cyfarfod rhwng y Cadeiryddion. Gobeithir y bydd modd cynnal y cyfarfod ar 17 Gorffennaf.

Mae'r trafodaethau gyda'r BBC parthed cytundeb a threfniadau atebolrwydd ariannol newydd yn parhau, gyda chyfarfod yfory i drafod prif delerau'r trefniant newydd.

Cytundebau arfaethedig y TSA a'r Egin

Nodwyd fod trafodaethau yn parhau rhwng swyddogion S4C a'r BBC parthed cytundeb arfaethedig y TSA. [Crynodeb: Gobeithir y bydd modd cyflwyno argymhelliad i'r Awdurdod yn fuan, gyda chyfle i'r Pwyllgor Craffu ei ystyried cyn hynny.]

O ran y cynllun Adleoli, nodwyd fod trafodaethau'n parhau parthed les ar gyfer gofod S4C o fewn yr Egin a chytundeb ar gyfer y tâl gwasanaeth.

Darllediadau Gwleidyddol

Holodd y Cadeirydd a oedd unrhyw broblemau wedi codi parthed darllediadau gwleidyddol yn ystod cyfnodau'r etholiadau eleni, a chadarnhaodd IHJ nad oedd unrhyw broblemau wedi codi.

Trafodaethau am weithgareddau'r Gronfa Fasnachol

Cyfeiriwyd at y bwriad i gynnal trafodaeth am weithgareddau'r Gronfa Fasnachol yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Gorffennaf a nodwyd y bydd y Bwrdd Masnachol yn cynnal Diwrnod i Ffwrdd y Bwrdd Masnachol ar y 12fed o Orffennaf. **Penderfynwyd y dylid cyflwyno penawdau perthnasol yng nghyfarfod fis Gorffennaf, gyda chyfle am drafodaeth gynhwysfawr ym mis Medi.**

Eitem 15.1.3 – Apêl cais rhyddid gwybodaeth BBC Cymru

Nodwyd fod y Pwyllgor Cwynion yn dal i ddisgwyl cyngor annibynnol gan gwmni cyfreithwyr mewn perthynas ag adolygiad mewnol y cais rhyddid gwybodaeth. Nodwyd fod yr oedi wrth ddarparu'r cyngor i'r Pwyllgor yn golygu fod yr ymateb i'r ymholwr yn hwyr. **Penderfynwyd y byddai PW yn atgoffa'r ymgynghorydd am bwysigrwydd darparu'r cyngor yn brydlon, ac yna i drefnu cyfarfod o'r Pwyllgor i'w ystyried.**

4.

Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau a Materion yn codi

Cyflwynwyd y Gofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau er gwybodaeth, a nodwyd y materion canlynol.

Rhaglen Waith PWC, yr Archwilwyr Mewnol

Nodwyd nad oedd swyddogion wedi derbyn rhaglen waith ac amserlen PWC ar gyfer 2017-18 hyd yma. Nododd y Cadeirydd ei fod yn awyddus i PWC ddarparu rhaglen waith i'r Pwyllgor Archwilio'n brydlon er mwyn rhoi cyfle priodol i'r Pwyllgor ei ystyried, ac i'r Awdurdod ei gymeradwyo mewn da bryd ar gyfer cyflawni'r gwaith. Gobeithir y bydd modd i'r Pwyllgor Archwilio ystyried y cynllun yn ei gyfarfod nesaf er mwyn ei argymhell i'r Awdurdod ym mis Gorffennaf.

5.

Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Penodiad y Prif Weithredwr newydd

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn adborth cadarnhaol parthed y penodiad newydd. Roedd wedi cyfarfod gydag OE er mwyn cychwyn ar y gwaith o baratoi ar gyfer fis Hydref, a bydd IHJ yn ei gyfarfod yn fuan er mwyn trosglwyddo gwybodaeth iddo.

Pwyllgor Diwylliant y Gymraeg a Chyfathrebu'r Cynulliad

[Crynodeb: Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi mynychu sesiwn gyda'r pwyllgor a chafwyd cyfle i drafod nifer o bynciau gan gynnwys amserlen yr Adolygiad, barn S4C am anghenion ariannu digonol y dyfodol, y berthynas gydag Ofcom a'r berthynas, gan gynnwys trefniadau hawliau gyda'r cynhyrchwyr annibynnol.]

Nododd yr Aelodau fod y fframwaith presennol, a'r Telerau Masnach, yn caniatáu i'r cynhyrchwyr ymelwa ar hawliau eu rhaglenni, ac y dylid cefnogi egwyddorion y Telerau Masnach a gyflwynwyd yn Neddf Gyfathrebiadau 2003. [Crynodeb: Nodwyd fod rhai materion hawliau ar adegau'n cyfyngu ar allu S4C i ddarparu ail-ddarllodiadau a mathau penodol o raglenni ar adegau'r dydd]

Cyfeiriodd y Cadeirydd at bwysigrwydd sicrhau fframwaith hawliau addas a oedd yn parchu anghenion S4C a'r sector annibynnol, a chyfeiriwyd at yr eithriad o fewn fframwaith Telerau Masnach ar gyfer rhaglenni plant. Nodwyd mai'r eithriad hwn oedd wedi caniatáu darparu gwasanaeth Cyw.

Nododd ECS fod y Llyfrgell Genedlaethol a'r BBC wedi derbyn grant o Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer archifo deunydd y BBC, a holodd a fyddai modd manteisio ar y cynllun er mwyn rhannu deunydd archif S4C gyda sefydliadau addysgiadol.

Esboniwyd fod gweledigaeth S4C: Gwthio'r Ffiniau yn cyfeirio at bwysigrwydd sicrhau fod cynnwys archif S4C ar gael i bartneriaid addysgiadol.

[Crynodeb: cafwyd trafodaeth am gynllun archif BBC Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol.]
Roedd S4C yn paratoi ar gyfer archifo deunydd hanesyddol ei hun mewn fformat penodol ar gyfer ei gyfuno gyda systemau archif y BBC yn Sgwâr Canolog.

6.

Adroddiad Blynyddol 2016-17

Cyflwynwyd dwy ddogfen i'r Awdurdod, sef 'Sut berfformiodd S4C yn 2016-17?' (naratif asesu perfformiad y gwasanaeth) a dogfen yn cynnwys gweddill yr Adroddiad Blynyddol.

Esboniwyd fod yr adroddiad yn seiliedig ar drafodaethau'r Awdurdod a'r Pwyllgor Cynnwys yn ystod y flwyddyn a data perfformiad meintiol ac ansoddol sy'n cefnogi'r naratif.

Trafodwyd y naratif perfformiad, a nodwyd fod cyrhaeddiad a defnydd y gwasanaeth yn galonogol ar deledu yng Nghymru, gyda phatrwm anwadal tu allan i Gymru, ond gyda thuedd hir dymor sy'n dal ar i fyny.

Roedd gwyllo ar y mesur cyrhaeddiad 3 munud i lawr tu allan i Gymru, ond roedd gwyllo ar sail y mesur 15 munud wedi cynyddu – sy'n awgrymu fod y gynulleidfa graidd tu hwnt i'r ffin yn gwyllo mwy o gynnwys S4C na'r flwyddyn gynt, ond gyda llai o wylwyr ysgafn wedi gwyllo.

Roedd patrymau newydd a diddorol hefyd i'w gweld yn y defnydd o gynnwys ar-lein, gyda chynnydd i wasanaeth S4C Arlein, a gostyngiad yn y ffigyrau iPlayer. Nodwyd fod y dull o gyfri sesiynau gwyllo iPlayer wedi newid yn ystod y flwyddyn ac felly nad oedd y gostyngiad o anghenraid yn golygu bod y perfformiad blwyddyn ar flwyddyn wedi gostwng. Roedd y defnydd o gynnwys ar Facebook Live, Twitter a YouTube wedi bod yn syfrdanol, gyda dros 18m o sesiynau gwyllo'n ystod y flwyddyn.

Pwysleisiwyd yr angen i nodi ein bod yn gorfod torri'r gôt yn ôl y brethyn, a bod hyn yn arwain at benderfyniadau a blaenoriaethu anodd a oedd i'w weld o fewn y ddarpariaeth. Roedd penderfyniadau o'r fath yn cynnwys y canran o ailddarllediadau dros gyfnod yr haf a diffyg drama wreiddiol drwy'r flwyddyn.

Nodwyd y dylid pwysleisio pwysigrwydd yr operâu sebon i'r amserlen. Roedd hirhoedledd Pobol y Cwm a Rownd i Rownd yn drawiadol ac maent yn dal i ddenu cynulleidfa sydd yn ei dro yn trosglwyddo i weddill rhaglenni'r oriau brig.

Cafwyd trafodaeth am y ffigyrau ariannol a gyflwynir ar y dudalen 'ffeithiau chwim' mewn perthynas â gwerth am arian, megis Cost y Gwylwr yr Awr, Cost Darparu'r Gwasanaeth i'r gynulleidfa deledu fesul wythnos ac impact economaidd S4C. Nodwyd fod y ffigyrau'n seiliedig ar ddata o'r Datganiad Ariannol a'u bod wedi eu cyflwyno yn yr adroddiad blynyddol am nifer o flynyddoedd. Roedd esboniadau manylach o'r ffigyrau wedi eu cynnwys yng nghorff yr adroddiad.

Cafwyd trafodaeth am ffigyrau effaith economaidd S4C, a sut y mae esbonio'r impact. Nodwyd fod yr asesiad yn deillio o waith a wnaed gan gwmni ymgynghori Arad a'i fod yn defnyddio mesuryddion cydnabyddedig ar gyfer asesu gwerth economaidd gwariant cyhoeddus. Roedd hefyd yn ystyried effaith S4C ar refeniw ffisgal, sef taliadau treth uniongyrchol ac anuniongyrchol gan S4C, y cwmnïau cynhyrchu a'r rheini sy'n cytundebu gydag S4C a'r cwmnïau. Roedd hyn yn cynnwys pob math o refeniw treth gan gynnwys PAYE, NI, TAW, treth gorfforaethol a threth adeiladau.

Nodwyd fod yr Awdurdod yn awyddus i ddangos fod y gwasanaeth yn darparu 'gwerth am arian' sylweddol.

Bwriedir cynnwys tabl er mwyn cymharu costau cynnwys S4C gyda chostau a thariffau darlledwyr eraill. Holwyd a oedd yn deg i gymharu costau S4C gyda chostau darlledwyr megis BBC1 ac ITV1 oherwydd bod incwm y darlledwyr mor wahanol. Nodwyd fod gan y gynulleidfa ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob gwasanaeth darlledu cyhoeddus, a'u bod yn disgwyl yr un safon ac amrywiaeth cynnwys gan S4C ac felly ei fod yn gymhariaeth deg a dadlennol.

Awgrymwyd y dylid cynnwys dyfyniadau gan y gynulleidfa er mwyn pwysleisio effaith gwasanaeth S4C. Nodwyd y gellid dethol dyfyniadau o adroddiadau'r Wifren a thrafodaethau'r Nosweithiau Gwylwyr.

Nodwyd hefyd yr angen i gyfeirio at gydweithio S4C gydag ysgolion a cholegau, a phwyslais ar ymwneud â'r gynulleidfa.

Cyfeiriwyd at ymateb y gynulleidfa i ddarpariaeth S4C o ran amrywiaeth gan nodi fod y gynulleidfa (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, gwylwyr di-Gymraeg a'r rheini sydd ddim yn wylwyr) o'r farn fod ymgais S4C i bortreadu amrywiaeth yn sgorio'n sylweddol uwch

na'r darlledwyr cyhoeddus eraill yng Nghymru.

Nodwyd fod bwriad i gynnwys crynodebau ffeithiol byr am nifer o weithgareddau oedd ar y gweill yn ystod y flwyddyn, megis adleoli i'r Egin, cyhoeddi gweledigaeth "S4C: Gwthio'r Ffiniau", y bartneriaeth gyda'r BBC a gweithgareddau masnachol S4C.

Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol a'r asesiad o berfformiad y gwasanaeth, gan ddirprwyo'r hawl i'r Cadeirydd i gymeradwyo newidiadau pellach yn ôl y galw. Nodwyd y bydd angen trafod y ddogfen ddrafft gyda DCMS a'r Archwilwyr Allanol, a'i fod yn debygol y byddai sylwadau'n cael eu cyflwyno ganddynt.

7. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Cyflwynodd ShW Gynllun Ariannol Pum Mlynedd ddiwygiedig, ac esboniodd fod y cynllun wedi ei ddiweddarau yn dilyn arweiniad yr Awdurdod ym mis Mawrth.

Ail-gyflwyno'r Cynllun Ariannol 5 mlynedd

Cyfeiriwyd at y Cynllun Ariannol 5 mlynedd a gyflwynwyd i'r Awdurdod ym mis Mawrth, a nodwyd fod yr Awdurdod wedi cymeradwyo'r Gyllideb ar gyfer 2017/18 a'u bod wedi gofyn i swyddogion addasu'r Cynllun Ariannol 5 mlynedd er mwyn ystyried ymhellach oblygiadau ystod o ragdybiaethau i'r gyllideb.

[Crynodeb: Cyfeiriwyd at waith cynllunio'n ymwneud â'r Cynllun Ariannol 5 mlynedd]

Nodwyd y byddai'n ddefnyddiol i ddangos impact chwyddiant ar gytundebau perthnasol (e.e. cytundebau Arqiva a BARB) yn y cynllun 5 mlynedd.

Cyflwynodd ShW daenlen yn cynnwys scenarios a oedd yn seiliedig ar arweiniad yr Awdurdod. Roedd gwybodaeth hefyd wedi ei ddarparu yn y daenlen sy'n dangos effaith posibl chwyddiant ar y cytundebau perthnasol.

Nodwyd nad oedd unrhyw ddarpariaeth o fewn y gyllideb cynnwys ar gyfer delio gydag effaith chwyddiant dros y cyfnod, ac felly mewn termau real byddai gwerth y gyllideb cynnwys yn disgyn.

Nid oedd y scenarios yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ariannol benodol ar gyfer cyflawni gweledigaeth y Strategaeth Cynnwys a Digidol neu Gwthio'r Ffiniau, ac y bydd angen sicrhau fod yr adolygydd a DCMS yn deall fod y cynllun ariannol arfaethedig yn seiliedig ar incwm cyhoeddus presennol S4C, yn hytrach nac ar yr adnoddau ariannol sydd eu hangen er mwyn gwireddu gweledigaeth S4C.

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am sut i gyflwyno manylion y cynllun ariannol a'r cyswllt gyda'r weledigaeth greadigol yn gyhoeddus.]

Bydd yn bwysig hefyd i nodi bod yr Awdurdod o'r farn na ellir torri'r gyllideb cynnwys ymhellach yn ystod y cyfnod, yn enwedig ar ôl cyflwyno gweledigaeth newydd uchelgeisiol. Cafwyd trafodaeth am yr angen i weithredu'r weledigaeth newydd a nodwyd y byddai angen ceisio gwireddu cymaint o'r weledigaeth â phosibl beth bynnag fydd setliad ariannol hir dymor S4C. Pe na byddai adnoddau ychwanegol ar gael byddai hyn yn arwain at gyfres o benderfyniadau a blaenoriaethau newydd i'w hystyried maes o law.

[Crynodeb: Nodwyd rhai materion technegol yn ymwneud gyda rhagamcanion ariannol S4C.]

Cafwyd trafodaeth am y Strategaeth Fasnachol, perfformiad y gronfa fasnachol ac agwedd yr Awdurdod a'r Bwrdd Masnachol o ran lefel y risg masnachol sy'n addas ar gyfer buddsoddiadau'r gronfa.

Nodwyd elfen o bryder am y bwriad i drosglwyddo mwy nac elw net o'r gronfa fasnachol, gan nodi y byddai hyn yn lleihau cyfalaf y gronfa dros gyfnod.

Holwyd am farn y Bwrdd Masnachol o ran eu rhagolygon elw a'u barn am drosglwyddo mwy nac elw net i'r Gronfa Gyhoeddus. Esboniwyd fod y Bwrdd Masnachol wedi cymeradwyo'r cynllun ariannol a oedd yn cynnwys y trosglwyddiadau yn y cynllun 5 mlynedd, ond y byddai lefel yr incwm yn seiliedig ar berfformiad y buddsoddiadau ecwiti, gan gynnwys amseru unrhyw werthiannau yn y dyfodol. Roedd y Bwrdd Masnachol felly wedi cymeradwyo trosglwyddo symiau sy'n fwy nag incwm net y grŵp, ac felly defnyddio arian cyfalaf er mwyn ariannu'r taliadau.

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am berfformiad y buddsoddiadau ecwiti diweddar a nodwyd fod nifer o'r buddsoddiadau ecwiti yn perfformio'n arafach na'r disgwyl ac o'r herwydd fod y Bwrdd Masnachol wedi symud rhagdybiaethau'r cynllun ymlaen flwyddyn er mwyn caniatáu cyfle i'r buddsoddiadau wneud elw.]

Cyfeiriwyd at berfformiad cronfa Sarasin a pherfformiad y farchnad stoc, a nodwyd fod perfformiad y gronfa wedi bod yn galonogol iawn yn ddiweddar. Serch hynny, nodwyd fod risgiau megis Brexit a pherfformiad cyffredinol y farchnad stoc yn ffactorau a allai effeithio ar berfformiad ac incwm hir dymor y gronfa, a fyddai yn eu tro yn effeithio ar allu'r grwp masnachol i ariannu trosglwyddiadau sylweddol i'r gronfa gyhoeddus.

[Crynodeb: Cymeradwyodd yr Awdurdod y Cynllun Ariannol 5 mlynedd]

MATERION CHWARTEROL

8. Nodwyd nad oedd unrhyw faterion chwarterol i'w cyflwyno'r mis hwn ac esboniwyd mai'r bwriad gwreiddiol yn y Rhaglen Waith oedd cynnal cyfarfod Diwrnod i Ffwrdd ym mis Mehefin, ond bod y cyfarfod hwn wedi ei ddileu, a chyfarfod busnes arferol wedi ei gynnwys yn ei le. O'r herwydd, nid oedd unrhyw adroddiadau chwarterol i'w cyflwyno.
9. **Adroddiad o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth a gynhaliwyd ar 11 a 25 Mai**

Cyflwynodd HHE grynoded o waith cyfarfodydd y pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 a 25 Mai a nodwyd y bydd cyfle i gynnig sylwadau ar y cofnodion drafft yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Esboniodd mai prif waith y Pwyllgor oedd ystyried adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol, PWC. Roedd yn falch i adrodd fod cynnydd sylweddol wedi ei wneud o ran cyflawni argymhellion yr Archwilwyr ac y bydd yn nodi hyn wrth adrodd i'r DCMS am ganfyddiadau'r archwilwyr mewnol.

Cyfeiriwyd at argymhelliad yr archwilwyr mewnol y dylai S4C ystyried diffinio'i 'Archwaeth Risg' a chafwyd trafodaeth am berthnasedd a phriodoldeb datganiad o'r fath i weithgareddau S4C.

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am berthnasedd Datganiad Archwaeth Risg i fusnes S4C. Nodwyd y byddai archwaeth risg S4C yn wahanol ym mhob maes unigol.]

Awgrymwyd y gellid addasu'r Gofrestr Risg Strategol er mwyn cynnwys elfennau Archwaeth Risg ac felly greu cysylltiad rhwng y datganiad archwaeth risg a'r dulliau o

adnabod a rheoli'r risgiau perthnasol.

Penderfynwyd y dylai'r Pwyllgor ystyried priodoldeb llunio Datganiad Archwaeth Risg drafft ac yna cyflwyno argymhelliad i'r Awdurdod.

Nododd fod y Pwyllgor wedi ystyried adran flaen y Datganiad Ariannol a'i fod yn argymhell i'r Awdurdod i gymeradwyo'r ddogfen.

Cymeradwyodd yr Awdurdod y ddogfen.

10. **Trafod Rhaglenni'r mis aeth heibio**

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio, a chyfeiriwyd yn benodol at ymateb i ddigwyddiadau terfysgaeth diweddar, y ddarpariaeth o'r etholiadau diweddar, Eisteddfod yr Urdd, rhaglenni adloniant, drama, gwledig, ffeithiol a newyddion.]

11. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

Nodwyd fod nifer y sylwadau a dderbynnir gan y Wifren, dros y ffôn ac ar gyfryngau cymdeithasol wedi disgyn rhywfaint flwyddyn ar flwyddyn. Holwyd a oedd hyn yn golygu fod yr elfen o ymgysylltu gyda'r gynulleidfa wedi lleihau yn ddiweddar. Nododd GW y byddai'n trafod y cwestiwn gyda thîm y Wifren.

12. **Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth**

Nodwyd nad oedd unrhyw gwynion wedi eu derbyn gan yr Adran Gyfathrebu oedd angen eu dwyn i sylw'r Awdurdod.

Cyfeiriwyd at y cais am adolygiad mewnol o'r cais rhyddid gwybodaeth parthed cofnodion yr Awdurdod a nodwyd fod swyddogion yn dal i aros am gyngor annibynnol ar gyfer y Pwyllgor. Bydd swyddogion yn pwysleisio pwysigrwydd derbyn y cyngor yn brydlon er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ystyried y cais.

13. **Ystyried Rhaglen Waith yr Awdurdod ar gyfer 2017–18**

Cyflwynwyd diweddariad i Raglen Waith yr Awdurdod 2017–18 er gwybodaeth.

14. **Unrhyw Fater Arall**

Cyfarfodydd anffurfiol yr Awdurdod gyda'r staff

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am opsiynau amgen ar gyfer cyfarfodydd a thrafodaethau anffurfiol gyda staff S4C yn lle'r cyfarfodydd presennol]

15. **Penderfynwyd gohirio'r cyfarfod anffurfiol gyda staff ym mis Gorffennaf ac ystyried ymhellach ddulliau priodol o gynnig cyfleoedd i'r staff drafod gyda'r Awdurdod.**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Iau, 13 Gorffennaf 2017 yng Nghaerdydd